Llythyr Bugeiliol at yr holl Ffyddloniaid, dydd Mercher, 1 Ebrill 2020

Cododd Crist!
Cododd yn wir, haleliwia!

Nid yw'n adeg bonllefain fel hyn, ac eto, pan fyddwn yn gwneud hynny ddiwedd yr wythnos nesaf, mae'n debyg y bydd yn rhaid i ni fod fel yr Eidalwyr a bonllefain o'n balconïau (os oes gennym ni un). A bonllef llawn llawenydd yw hon!

Sylwais ar bost ar y cyfryngau cymdeithasol y diwrnod o'r blaen yn dweud rhywbeth fel hyn: "Wnes i erioed disgwyl i'm Grawys fod mor Rawysol ag y mae fy Ngrawys wedi bod." Peidiwch â sôn am roi gorau i alcohol, prinder llaeth a phapur tŷ bach ôl sy'n ein poeni erbyn hyn a does yr un ohonom yn gallu mynd i weld ffrindiau, teulu na neb arall chwaith. Pwy fyddai wedi meddwl y byddai'n rhaid i ni roi'r gorau i Eglwys dros y Grawys? Ac am brynu wyau Pasg, ydyn nhw'n cael eu cyfrif ymysg y hanfodion y cawn ni fynd i'r siopau i'w prynu?

Ar Sul y Pasg cyntaf, rydym yn clywed am griw bach gwrol o ddisgyblion yn cyrraedd bedd Iesu tra roedd dal yn dywyll a darganfod nad oedd yn bosibl gwireddu ei bwriad o eneinio'r corff. Nid oedd Iesu yno, "mae wedi'i gyfodi".

Yr honiad syfrdanol hwnnw sydd wrth wraidd ein neges Gristnogol, fod Duw yng Nghrist yn rhy gryf i'w gaethiwo gan gadwyni marwolaeth a bod bywyd newydd, bywyd atgyfodedig, wedi ymddangos.

Nid yw'r amgylchiadau presennol, er yn anodd iawn, mor anodd ag yr oedd hi adeg y Ffliw ar ôl y Rhyfel Mawr, neu'r Pla Du pan fu farw traean o boblogaeth Prydain yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Daw'r genedl, a'r Eglwys, trwyddi, er, dydw i ddim yn bychannu'r ofn y mae'n rhaid fod rhai bobl yn ei deimlo wrth feddwl eu bod mewn cymaint o berygl ar hyn o bryd.

Mewn amgylchiadau fel hyn, mae'n rhaid i ni roi'n ffydd yn yr Arglwydd. Yn cael ein taro gan y feirws ai peidio, yn goddef ai peidio, rydym ni, sy'n rhoi ein ffydd yng Nghrist, yn perthyn iddo, a'i addewid yw na fydd byth yn ein gadael mewn bywyd, mewn salwch neu, os y daw i hynny, mewn marwolaeth – *ni all angau nac einioes nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau na dim arall a grëwyd ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. (Rhufeiniaid 8.38,39)*

A'r warant dros hyn i gyd yw atgyfodiad Crist ei hun, *y cyntaf anedig ymhlith y meirw* (Colosiaid 1.18).

Fodd bynnag, gallai atgyfodiad gyrraedd cyn y dydd olaf. Mae Duw yn gallu rhoi atgyfodiadau bychain i ni - o ysbryd cariad, o haelioni neu o gydweithredu a gobaith, wrth i ni gerdded gydag Ef trwy glyn cysgod angau. Nid pethau pitw yw'r rhain, nhw yw ein hyd a'n lled ac allan ohonyn nhw mae cyflawnder bywyd yn ymddangos.

Rwy'n annog pob un ohonoch i adnewyddu'ch ffydd yn yr Arglwydd atgyfodedig. Rwy'n eich annog i gymryd yr wythnos nesaf, yr Wythnos Fawr, o ddifrif ac i deithio gydag Iesu trwy Jeriwsalem i Gethsemane a thu hwnt. Rwy'n eich annog i ddal eich dwylo allan er mwyn i'r Arglwydd eu cymryd, pa lwybrau bynnag y bydd yn rhaid i ni eu cerdded, er mwyn iddo roi gobaith, cariad a gras.

A gadewch i ni weddïo fwy nag erioed o'r blaen. Yn y flwyddyn 590AD, roedd Rhufain yng ngafael pla ac arweiniodd y Pab Gregory, yr un enw â mi, gyda llaw, orymdaith trwy Rhufain yn gweddïo ar i Dduw arbed ei bobl a dod â'r afiechyd i ben. Yn ôl y sôn, pan gyrhaeddodd fedd yr Ymerawdwr Hadrian, cafodd weledigaeth o'r archangel Mihangel yn rhoi ei gleddyf yn ei gwain, a dehonglodd Gregory hyn fel arwydd fod y pla ar ben. Ac felly y bu, a chafodd y bedd enw newydd, Castel Sant'Angelo, Castell yr Angel, a gallwch ddal i fynd yno hyd heddiw.

Petawn i'n trefnu gorymdaith heddiw, byddai'r heddlu'n gafael yn fy ngholer am dorri rheoliadau'r llywodraeth. Nhw fyddai'n iawn, oherwydd mae'r rhain wedi'u gwneud i'n cadw ni'n ddiogel a beth bynnag, dydw i ddim yn yn siŵr a fyddwn i'n gweld Mihangel, nac unrhyw angel arall, ar ben tŵr yr Eglwys Gadeiriol; ond fe allwn weddio'r gweddi hon:

> Arglwydd Iesu Grist, dioddefaist farwolaeth a chefaist dy gladdu er ein mwyn ni,
> Ac atgyfodaist eto i'n hachub.
> Rydym yn erfyn arnat ti i wrando arnom pan fyddwn ni'n gweddïo arnat ti, ac yng nghanol ein trallod, rhyddha ni.
> Gwareda ni rhag bygythiad y feirws hwn, os mai dyna yw dy ewyllys,
> ond ym mhob peth, rhoi i ni gariad, rhoi i ni obaith, rhoi i ni nerth.
> **Amen.**